# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-05-06)

### Dyddiad y cyfarfod: 13 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 17:30 – 18:45
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Arglwydd Elis-Thomas AC, y Llywydd (Cadeirydd) | |
| Glyn Davies AC | Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Christine Gwyther AC | Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Gwenda Thomas AC | Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu y Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Weithredwr Seneddol, Swyddfa'r Llywydd |

| | |
|---|---|
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc |

## Cyflwyniad

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC, Rosemary Butler AC a Janet Davies AC.

## Eitem 1: Fideo Gynhadledd gyda Syr Jeremy Beecham

1.1 Croesawodd y Llywydd Syr Jeremy Beecham i’r cyfarfod drwy fideo gynhadledd.

1.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan y Panel, gwnaeth Syr Jeremy y pwyntiau canlynol:

Roedd y ffaith bod perthynas waith dda yn bodoli rhwng cyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cynulliad Cymru o fudd i gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru.

Roedd Mesur Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle delfrydol i’r Cynulliad wella’r modd y caiff ei swyddogaeth graffu ei threfnu a’i gweithredu.

Er mwyn datblygu’r arferion craffu sy’n bodoli a chynyddu cynhwysedd er mwyn gwneud gwaith craffu effeithiol, efallai yr hoffai’r Cynulliad:

ystyried y modd y mae’n mynd i’r afael â materion trawsbynciol;

gysylltu mwy â chyrff allanol, yn arbennig y sectorau preifat a gwirfoddol;

gynnwys asiantaethau sydd heb eu datganoli yn y broses graffu;

gael cyngor arbenigol;

edrych ar arferion da gan lywodraeth leol, er enghraifft, y modd y mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi mabwysiadu dull ar y cyd er mwyn gweithredu eu dyletswydd statudol o graffu ar faterion yn ymwneud ag iechyd.

Roedd yn bwysig i bwyllgorau craffu wneud gwaith craffu gan edrych ymlaen yn ogystal â gwaith craffu ôl-weithredol. Dylid ystyried oblygiadau materion sydd heb eu datganoli ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal â pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth baratoi’r rhaglen waith ar gyfer y Cynulliad newydd yn dilyn etholiad mis Mai 2007.

Cafodd yr argymhelliad a gafodd ei gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd o fewn Llywodraeth Leol,, na ddylid defnyddio chwip y blaid ym musnes pwyllgorau craffu, ei ystyried yn ffafriol gan lawer o’r rhai a oedd yn rhoi tystiolaeth i adolygiad Beecham.

Roedd angen parhau i weithio’n agos â’r sector gwirfoddol a bwrw ‘mlaen â gwaith Cyngor y Sector Gwirfoddol ar ôl 2007. Roedd y sector yn chwarae rhan bwysig o ran darparu gwasanaethau ond yn aml cai ei rwystro rhag cyfrannu at y gwaith craffu oherwydd materion cynhwysedd.

Er mwyn cynnwys y cyhoedd yn y broses graffu roedd angen sicrhau bod gwybodaeth ystyrlon ar gael iddynt. Gallai’r cyhoedd gael eu cynnwys, fel defnyddwyr gwasanaeth, yn y broses graffu trwy fod yn aelodau cyfetholedig a rheithgorau dinasyddion.

Roedd gan y cyfryngau rôl o ran helpu i wella statws y broses graffu fel swyddogaeth anweithredol, a fyddai, yn ei dro, yn annog y cyhoedd i ymddiddori a chymryd rhan yn y broses graffu.

Teimlid fod yr agwedd canolbwyntio ar y dinesydd at gyflenwi gwasanaethau, a gafodd ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn uwchraddol o’i gymharu â dull sy’n seiliedig, yn anad dim, ar ddewis defnyddwyr unigol.

Er mwyn mesur canlyniadau darparu gwasanaethau, byddai’n angenrheidiol i gael trefniadau partneriaeth effeithiol mewn lle, lle mae canlyniadau, ac yn bwysicach, camau tuag at eu cyrraedd, wedi’u cytuno. Roedd cael sail wybodaeth gadarn yn hanfodol.

Byddai’n bwysig i’r Cynulliad fonitro ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Beecham, yn arbennig y cynnydd a wnaed gan y Llywodraeth o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad.

## Eitemau Busnes Rheolaidd

## Eitem 2: Nodyn ynghylch y cyfarfod diwethaf ar 9 Mai 2006

2.1 Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

**Camau i’w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth i roi’r cofnodion ar y Rhyngrwyd.**

## Eitem 3: Materion yn codi

3.1 Nododd y Panel y materion yn codi o’r cyfarfod blaenorol.

## Eitem 4: Eitemau’r Cadeirydd

4.1 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Pwyllgor yn bwriadu ymweld â Chanolfan François Baclesse, canolfan ganser yn Caen, er mwyn hwyluso’r adolygiad o wasanaethau canser ar gyfer pobl Cymru. Nododd y Panel yr achos busnes dros yr ymweliad, a gytunwyd gan y Llywydd y tu allan i’r Panel.

4.2 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod The Fire and Rescue Services (Charging) (Wales) Order 2006 wedi ei gyfeirio'n swyddogol at y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i'w ystyried, o dan Reol Sefydlog 24.7. Mynegodd bryder am orfod ystyried deddfwriaeth yr oedd y Pwyllgor wedi penderfynu, yn flaenorol, i beidio â chraffu arni. Cytunodd y Panel i wahodd Jenny Randerson, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, i gyfarfod yn y dyfodol i drafod rôl y Pwyllgor Busnes o ran cynghori'r Dirprwy Lywydd ar gyfeirio is-ddeddfwriaeth at Bwyllgorau Pwnc.

4.3 Cododd Cadeirydd y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau'r mater o drin y bleindiau nenfwd yn yr ystafelloedd pwyllgor yn y Senedd. Cytunodd y Panel i wahodd Lorraine Barrett, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Is Grwp Adeiladau Pwyllgor y Ty ac aelod o'r Comisiwn Cysgodol â chyfrifoldeb am ystadau, i gyfarfod yn y dyfodol i drafod materion gweithredol yn ymwneud â'r Senedd.

## Camau i'w cymryd

Y Cadeirydd i wahodd Jenny Randerson a Lorraine Barrett i gyfarfod o'r Panel yn y dyfodol.

## Eitemau i Adrodd Arnynt

## Eitem 5: Y sylw y mae'r Cyfryngau yn ei roi i Bwyllgorau

5.1 Nododd y Panel y sylw a roddodd y cyfryngau i Bwyllgorau yn ystod mis Mai.

## Eitem 6: Y broses graffu a'r cynnydd o ran Mesurau sy'n arbennig o berthnasol i Gymru

6.1 Nododd y Panel yr adroddiad diweddaraf ar hynt y Mesurau drwy'r Senedd a'r ystyriaeth a roddir iddynt gan Bwyllgorau'r Cynulliad.

## Eitemau i'w Trafod

## Eitem 7: Y sefyllfa ddiweddaraf o ran Gweithio ar y Cyd â'r Pwyllgor Materion Cymreig

7.1 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y sesiwn graffu ar y cyd gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig, er mwyn clywed tystiolaeth mewn cysylltiad â'i archwiliad o gynigion yr Adran Iechyd ar gyfer ailstrwythuro'r canolfannau trin llosgiadau yn Ne Cymru a Gorllewin Lloegr, wedi ei gohirio. Yn amodol ar gytundeb y Cadeiryddion priodol, rhagwelwyd y byddai sesiwn yn cael ei chynnal yn ystod tymor yr hydref.

## Eitem 8: Unrhyw fater arall

8.1 Nododd y Panel y papur ar ddangosyddion perfformiad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar

gyfer mis Mawrth a'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheolau Sefydlog.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**

**Mehefin 2006**